Pennod V

RHEOLIADAU YN YMWNEUD AG ETHOL ARCHESGOB AC ESGOBION CADEIRIOL

REGULATIONS RELATING TO THE ELECTION OF THE ARCHBISHOP AND THE DIOCESAN BISHOPS

Chapter V

PENNOD V

RHEOLIADAU YN YMWNEUD AG ETHOL ARCHESGOB AC ESGOBION CADEIRIOL

Rhan 1: Penodi Etholwyr Esgob

1
2
3
4

Rhan II: Coleg Ethol Archesgob

5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15

Rhan III: Coleg Ethol Esgobion

16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26

CHAPTER V

REGULATIONS RELATING TO THE ELECTION OF THE ARCHBISHOP AND THE DIOCESAN BISHOPS

Part 1: Appointment of Episcopal Electors

1
2
3
4

Part II: The Archbishop's Electoral College

5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15

Part III: The Bishop's Electoral College

16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26

Pennod V: Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud ag Ethol Archesgob ac Esgobion Cadeiriol

Yn unol â'i alluoedd o dan Bennod II y Cyfansoddiad, y mae'r Corff Llywodraethol trwy hynyma yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y teitl "Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud ag Ethol Archesgob ac Esgobion Cadeiriol", a draethir fel a ganlyn:

Rhan I: Penodi Etholwyr Esgob

Rhan II: Coleg Ethol Archesgob

Rhan III: Coleg Ethol Esgobion

Rhan I: Penodi Etholwyr Esgob

1. Bydd pob Etholwr Esgob yn berson lleyg o dan bymtheg ar hugain mlwydd oed neu'n Glerig o dan ddeg a thrigain mlwydd oed a bydd y naill a'r llall yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol.

2.1 Bydd Cynhadledd pob Esgobaeth yn ei chyfarfod cyntaf, ac wedi hynny yng nghyfarfod cyntaf pob Cynhadledd Esgobaeth newydd ei hethol, yn penodi:

2.1.1 chwe Chlerig sy'n dal trwydded oddi wrth yr Esgob i weinyddu yn yr esgobaeth ac sy'n preswylio ynddi; a

2.1.2 chwech o leygion sydd naill ai'n preswylio yn yr esgobaeth neu y mae eu henwau ar rôl etholwyr un o Blwyfi'r esgobaeth neu sy'n dal swydd esgobaethol yn yr esgobaeth;

i fod yn Etholwyr Esgob yn y Coleg Ethol; a phenodir y Clerigion gan aelodau clerigol y Gynhadledd a'r lleygion gan yr aelodau lleyg, a bydd y Gynhadledd yn gwneud rhestr o'r Etholwyr Esgob yn unol a Rheoliad 2.3.

2.2 Ar yr un adeg ac yn yr un modd gwneir rhestr atodol o naw aelod Clerigol a naw aelod lleyg, ac o'r rhestr honno y llenwir bylchau achlysurol yn nifer yr Etholwyr Esgob.

2.3 Penderfynir y drefn y gosodir enwau'r rhai a benodir dan Reoliadau 2.1 a 2.2 ar restr yr Etholwyr Esgob a'r rhestr atodiadol trwy bleidlais gudd a gymerir adeg eu penodi, ac os digwydd bod y pleidleisiau'n gyfartal, Llywydd y Gynhadledd fydd yn penderfynu trefn y rhai a gafodd bleidleisiau cyfartal.

3. Bydd Clerig, a benodwyd yn Etholwr Esgob yn parhau fel y cyfryw yn unig tra bo'n dal trwydded oddi wrth yr Esgob i weinyddu yn yr esgobaeth ac yn preswylio ynddi, ar yr amod y bydd Etholwr Esgob, a oedd ar adeg ei ethol yn Glerig yng ngweinidogaeth gyflogedig amser-llawn yr Eglwys yng Nghymru, yn peidio â bod yn Etholwr Esgob pan beidio â dal swydd yng ngweinidogaeth gyflogedig amser-llawn yr Eglwys yng Nghymru, eithr ni chaiff hynny fod yn rhwystr iddo fod ar dir i'w ailethol yn Etholwr Esgob.

Chapter V: Governing Body Regulations relating to the Election of the Archbishop and the Diocesan Bishops

In exercise of its powers under Chapter II of the Constitution the Governing Body hereby makes the following Regulations entitled "Governing Body Regulations relating to the Election of the Archbishop and the Diocesan Bishops", which are set out as follows:

Part I: Appointment of Episcopal Electors

Part II: The Archbishop's Electoral College

Part III: The Bishop's Electoral College

Part I: Appointment of Episcopal Electors

1. An Episcopal Elector shall be a lay person who is under the age of seventy five years or a Cleric who is under the age of seventy years and, in each case, qualified to be a member of the Governing Body.

2.1 Each Diocesan Conference shall, at its first meeting and at each subsequent first meeting of any newly-elected Diocesan Conference, appoint:

2.1.1 six Clerics who hold a licence from the Diocesan Bishop to officiate and reside in the diocese; and

2.1.2 six lay persons who either reside in the diocese or whose names are on the electoral roll of a Parish in the diocese or who hold diocesan office in such diocese;

to act as Episcopal Electors in the Electoral College, the Clerics being appointed by the clerical members and the lay persons by the lay members of the Conference and the Conference shall make lists of Episcopal Electors in accordance with Regulation 2.3.

2.2 A supplemental list of nine Clerics and nine lay persons shall be made at the same time in a similar manner, from which casual vacancies in the number of Episcopal Electors shall be filled.

2.3 The order in which the names of the persons appointed under Regulations 2.1 and 2.2 shall stand on the lists of Episcopal Electors and on the supplemental lists respectively shall be determined by a vote taken by ballot at the time of appointment, and in the case of an equality of votes the order as between those having an equality of votes shall be determined by the President of the Diocesan Conference.

3. A Cleric who is appointed an Episcopal Elector shall continue as such only whilst holding a licence from the Bishop to officiate and residing in such diocese, provided that an Episcopal Elector who at the time of appointment was a Cleric in the full-time stipendiary ministry of the Church in Wales shall cease to be an Episcopal Elector when he or she ceases to hold office in the full-time stipendiary ministry of the Church in Wales, but this without prejudice to eligibility for re-appointment as an Episcopal Elector.

4.1 Bydd Ysgrifennydd Cynhadledd pob Esgobaeth yn anfon rhestr o Etholwyr Esgob yr esgobaeth i'r Archesgob, i bob Esgob Cadeiriol ac i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol yn union wedi penodi'r etholwyr hynny.

4.2 Gall Etholwr Esgob ymddiswyddo trwy hysbysiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd Cynhadledd yr Esgobaeth.

4.3 Os bydd lle gwag yn nifer yr Etholwyr Esgob, gosodir yr enw cyntaf sydd ar y rhestr atodol ar ddiwedd rhestr yr Etholwyr Esgob, a daw'r person hwnnw yn Etholwr Esgob, a bydd Ysgrifennydd Cynhadledd yr Esgobaeth yn hysbysu hynny yn unol â Rheoliad 4.1.

Rhan II: Coleg Ethol Archesgob

5.1 O fewn deng niwrnod ar hugain i'r archesgobaeth fynd yn wag, bydd yr Esgob Cadeiriol blaenaf, mewn llythyr y cofnodwyd ei anfon, yn gwysio pob aelod o'r Coleg Ethol Archesgob i gyfarfod a gynhelir heb fod cyn pedwar diwrnod ar ddeg nac ar ôl deng niwrnod ar hugain wedi dyddiad postio'r llythyr i ethol Archesgob.

5.2 Eithr os digwydd i unrhyw esgobaeth neu esgobaethau fod yn wag neu fynd yn wag ar y dydd yr â'r archesgobaeth yn wag neu o fewn pedwar diwrnod ar ddeg wedi hynny, ni ddechreuir gweithredu i lenwi'r archesgobaeth ac, os dechreuwyd gweithredu fe'i diddymir, nes bydd Esgob neu Esgobion y cyfryw esgobaeth neu esgobaethau wedi ei orseddu neu eu gorseddu, ac ar hynny dilynir y drefn a orchmynnir ym mharagraff 5.1 at wysio'r Coleg, gan gymryd dyddiad y gorseddiad olaf yn lle'r dyddiad yr aeth yr archesgobaeth yn wag.

5.3 Ac eithrio fel y darparwyd yma, nid rhaid bod pob esgobaeth yng Nghymru yn llawn cyn ethol Archesgob.

6. Os bydd unrhyw Etholwr yn methu neu'n anfodlon gweithredu, llenwir ei le gan yr aelod nesaf, clerigol neu leyg yn ôl y galw, ar restr Etholwyr yr esgobaeth.

7.1 Ni fydd methiant i wysio unrhyw aelod nac absenoldeb unrhyw aelod yn annilysu'r cyfarfod.

7.2 Y cworwm i'r cyfarfod fydd dwy ran o dair o gyfanswm y nifer y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol, yn cynnwys o leiaf un Esgob, ar yr amod nad oes yr un Esgobaeth heb gynrychiolaeth ac ar yr amod hefyd nad yw'r un Esgob sy'n bresennol yr unig gynrychiolydd o'i Esgobaeth.

4.1 A list of the Episcopal Electors for each Diocese shall be sent immediately after their appointment by the Secretary of the Diocesan Conference to the Archbishop and each Diocesan Bishop and the Secretaries of the Governing Body.

4.2 An Episcopal Elector may resign from office by notice in writing, addressed to the Secretary of his or her Diocesan Conference.

4.3 In the event of a vacancy in the number of Episcopal Electors, the first name on the supplemental list shall be placed at the end of the list of Episcopal Electors, and that person shall become an Episcopal Elector and the Secretary of the Diocesan Conference shall send notice thereof as in Regulation 4.1.

Part II: The Archbishop's Electoral College

5.1 Within thirty days after a vacancy arises in the archbishopric, the senior Diocesan Bishop, by recorded delivery letter, shall summon each member of the Archbishop's Electoral College to a meeting to be held not less than fourteen and not more than thirty days after the posting of such letter, for the purpose of electing an Archbishop.

5.2 Provided that if a vacancy in any see or sees exists or arises on the date on which the archbishopric becomes vacant or arises within fourteen days thereafter, proceedings to fill the archbishopric shall not be taken, or if begun shall be annulled, until after the Bishop or Bishops of such see or sees shall have been enthroned, whereupon the procedure prescribed in paragraph 5.1 for the summoning of the College shall be followed, the date of the latest of such enthronements being substituted for the date on which the vacancy in the archbishopric arose.

5.3 Except as herein provided, it shall not be necessary that before the election of an Archbishop takes place every see in Wales shall be filled.

6. In the event of any Episcopal Elector being unable or unwilling to act, the place of such Elector shall be taken by the next member, lay or clerical as the case may be, on the list of Electors for his or her diocese.

7.1 Failure to summon any member to any meeting or the absence of any member shall not invalidate the meeting.

7.2 A quorum for the meeting shall comprise two thirds of the total number entitled to be present, including at least one Bishop, provided that no Diocese is unrepresented and provided also that no Bishop present is the sole representative of his Diocese.

8. Oni bydd a hyd oni bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu'n wahanol, cynhelir y cyfarfod i ethol Archesgob yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandrindod ac, oni bydd yr eglwys honno ar gael, mewn eglwys a ddewisir gan Bwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol.

9. Ar y dydd a'r awr, ac yn y man a benodwyd ar gyfer yr etholiad, ac wedi gweinyddu'r Cymun Bendigaid, bydd y Llywydd yn mynd i'r gadair ac yn cyhoeddi bod y Coleg wedi'i gynnull i ethol Archesgob. Bydd y cyfarfod hwn yn breifat.

10.1 Pleidleisir trwy bleidlais gudd.

10.2 Ni phleidleisir yn ôl urddau.

10.3 Ni fydd gan y Llywydd bleidlais fwrw.

10.4 Cyfeirir unrhyw anghydfod ynglŷn â phleidlais at y Llywydd, a bydd ei ddyfarniad ef yn derfynol.

11. Ni chaniateir i'r Coleg Ethol Archesgob ddirprwyo'i allu i ethol Archesgob.

12. Os caiff unrhyw un ddwy ran o dair o bleidleisiau'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio, bydd yr esgobion yn ei gyhoeddi yn Archesgob Etholedig.

13.1 Os, ar derfyn y cyfarfod, na fydd yn parhau am fwy na thri diwrnod olynol, na fydd neb wedi derbyn dwy ran o dair o bleidleisiau'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio, trosglwyddir yr hawl i ethol i'r Esgobion a byddant hwythau'n cyhoeddi yn Archesgob Etholedig y sawl a etholir ganddynt.

13.2 Os bydd y Coleg heb ethol neb yn Archesgob cyn pen tri mis wedi'r dydd cyntaf y gellid gwneud hynny, trosglwyddir yr hawl i ethol i'r Esgobion a byddant hwythau'n cyhoeddi yn Archesgob Etholedig y sawl a etholir ganddynt.

14.1 Os bydd yr Archesgob Etholedig yn derbyn y penodiad, bydd yr Esgobion yn ei gyhoeddi'n Archesgob ac yn anfon dogfen yn hysbysu ei etholiad a'i gydsyniad i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol.

14.2 Os bydd yr Archesgob Etholedig yn gwrthod y swydd, neu os bydd heb dderbyn y penodiad cyn pen wyth diwrnod ar hugain mewn ysgrifen wedi'i chyfeirio at yr Esgobion, cynhelir etholiad arall mewn modd cyffelyb; ar yr amod, i bwrpas yr etholiad hwnnw, y cyfrifir yr archesgobaeth yn wag o'r dydd y gwrthodwyd y swydd neu'r wythfed dydd ar hugain wedi ethol yr Archesgob Etholedig, pa un bynnag a ddaw gyntaf.

15. Gorseddir yr Archesgob o fewn tri mis i'w ethol, neu cyn gynted ag y bo modd wedi hynny, mewn lle yng Nghymru a benodir ganddo ef.

8. Unless and until the Governing Body otherwise determine, the meeting to elect the Archbishop shall be held in the Church of the Holy Trinity at Llandrindod Wells and if that church shall not be available, at some church selected by the Standing Committee of the Governing Body.

9. On the day and at the time and place appointed for the election, and after celebration of the Holy Communion, the President shall take the chair and declare the Archbishop's Electoral College to be assembled for the election of the Archbishop. Such meeting shall be private.

10.1 The voting shall be by ballot.

10.2 There shall not be a vote by orders.

10.3 The President shall not have a casting vote.

10.4 Any dispute as to a vote shall be referred to the President whose decision shall be final.

11. The Archbishop's Electoral College shall not be allowed to delegate its power of electing an Archbishop.

12. If a person receives two-thirds of the votes of those present and voting, he shall be declared by the Bishops to be Archbishop-Elect.

13.1 If at the close of the meeting, which shall not extend beyond three consecutive days, no person shall have received two-thirds of the votes of those present and voting, the election shall pass to the Bishops and the person elected by them shall be declared by them to be Archbishop-Elect.

13.2 If the College shall not have elected any person as Archbishop within three months of the day upon which it was first possible for them to have done so, the election shall pass to the Bishops and the person elected by them shall be declared by them to be Archbishop-Elect.

14.1 If the Archbishop-Elect accepts the appointment the Bishops shall declare him to be Archbishop and shall send a document notifying his election and accession to the Secretaries of the Governing Body.

14.2 If the Archbishop-Elect refuses or does not within twenty-eight days accept the appointment by writing addressed to the Bishops, another election shall be held in similar manner, provided that for the purpose of such election the vacancy of the archbishopric shall be deemed to have taken place on the date of such refusal or on the twenty-eighth day after the election of such Archbishop-Elect, whichever shall first happen.

15. The enthronement of the Archbishop shall take place within three months of his election or as soon thereafter as may be, at a place in Wales to be appointed by him.

Rhan III: Coleg Ethol Esgob

16.1 Pan fo Esgob neu'r Archesgob yn rhoi rhybudd o'i fwriad i ymddeol o'i esgobaeth, bydd y Llywydd, trwy lythyr y cofnodwyd ei anfon, o fewn saith diwrnod iddo dderbyn y cyfryw rybudd, yn gwysio pob aelod o'r Coleg Ethol Esgob i gyfarfod i'w gynnal heb fod yn fwy na deng niwrnod ar hugain wedi'r dyddiad y mae'r cyfryw ymddeoliad i ddod i rym i ethol esgob i'r esgobaeth dan sylw.

16.2 Pan fo lle gwag o'r fath yn digwydd heb roi rhybudd ymlaen llaw i'r Llywydd, bydd ef, trwy lythyr y cofnodwyd ei anfon, yn gwysio pob aelod o'r Coleg i gyfarfod i'w gynnal heb fod yn gynharach na phedwar diwrnod ar ddeg nac yn ddiweddarach na deng niwrnod ar hugain wedi dyddiad postio'r llythyr hwnnw i ethol Esgob i'r esgobaeth wag.

17. Os bydd unrhyw Etholwr yn methu neu'n anfodlon bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Coleg, llenwir ei le yn y cyfarfod hwnnw gan yr aelod nesaf, clerigol neu leyg yn ôl y digwydd, ar y rhestr neu'r rhestr atodol yn ôl y digwydd.

18.1 Ni fydd methiant i wysio unrhyw aelod nac absenoldeb unrhyw aelod yn annilysu'r cyfarfod.

18.2 Y cworwm i'r cyfarfod fydd dwy ran o dair o gyfanswm y nifer y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol, yn cynnwys o leiaf un esgob, ar yr amod nad oes yr un Esgobaeth heb gynrychiolaeth ac ar yr amod hefyd nad yw'r un Esgob sy'n bresennol yr unig gynrychiolydd o'i Esgobaeth.

19. Ni chaniateir i'r Coleg Ethol Esgob ddirprwyo'i allu i ethol Esgob.

20. Cynhelir y cyfarfod yng Nghadeirlan yr esgobaeth wag neu mewn lle arall yn yr Esgobaeth i'w enwi gan y Llywydd.

21.1 Ar y dydd a'r awr, ac yn y man a benodwyd ar gyfer yr etholiad, ac wedi gweinyddu'r Cymun Bendigaid, bydd y Llywydd yn mynd i'r gadair ac yn cyhoeddi bod y Coleg wedi'i gynnull i ethol Esgob i'r esgobaeth. Bydd y cyfarfod hwn yn breifat.

21.2 Pleidleisir trwy bleidlais gudd.

21.3 Ni phleidleisir yn ôl urddau.

21.4 Ni fydd gan y Llywydd bleidlais fwrw.

21.5 Cyfeirir unrhyw anghydfod ynglŷn â phleidlais at y Llywydd, a bydd ei ddyfarniad ef yn derfynol.

Part III: The Bishop's Electoral College

16.1 Where a Bishop or the Archbishop gives notice of his intention to resign his see, the President by recorded delivery letter within seven days of his receipt of such notice shall summon each member of the Bishop's Electoral College to a meeting to be held not more than thirty days after the date when such resignation is to take effect for the purposes of electing a bishop to the see concerned.

16.2 Where such a vacancy arises without prior notice being given to the President, he shall, by recorded delivery letter, summon each member of the College to a meeting to be held not less than fourteen nor more than thirty days after the posting of such letter, for the purposes of electing a Bishop to the vacant see.

17. In the event of an Elector being unable or unwilling to attend any meeting of the College, his or her place shall be taken for that meeting by the next member, clerical or lay as the case may be, on the lists or supplemental lists as the case may be.

18.1 Failure to summon any member to any meeting or the absence of any member shall not invalidate the meeting.

18.2 A quorum for the meeting shall comprise two thirds of the total number entitled to be present, including at least one Bishop, provided that no Diocese is unrepresented and provided also that no Bishop present is the sole representative of his Diocese.

19. The Bishop's Electoral College shall not be entitled to delegate its power of electing a Bishop.

20. The meeting shall take place in the Cathedral of the vacant see or another place within the Diocese to be identified by the President.

21.1 On the day, and at the time and place appointed for the election, and after celebration of the Holy Communion in the cathedral, the President shall take the chair and declare the College to be assembled for the election of the Bishop of the diocese. Such meeting shall be private.

21.2 The voting shall be by ballot.

21.3 There shall not be a vote by orders.

21.4 The President shall not have a second vote.

21.5 Any dispute as to a vote shall be referred to the President whose decision shall be final.

22. Os caiff unrhyw un ddwy ran o dair o bleidleisiau'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio, bydd y Llywydd yn ei gyhoeddi yn Esgob Etholedig.

23. Os, ar derfyn y cyfarfod, na fydd yn parhau am fwy na thri diwrnod olynol, na fydd neb wedi derbyn dwy ran o dair o bleidleisiau'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio, trosglwyddir yr hawl i ethol i'r Esgobion oni bydd a hyd oni bydd y Corff Llywodraethol wedi penderfynu'n wahanol.

24. Os bydd y Coleg heb ethol neb yn Esgob Etholedig cyn pen tri mis wedi i'r esgobaeth fynd yn wag, llenwir y lle gwag gan Fainc yr Esgobion oni bydd a hyd oni bydd y Corff Llywodraethol wedi penderfynu'n wahanol.

25. Os bydd yr Esgob Etholedig yn gwrthod y swydd, neu os bydd heb dderbyn y penodiad cyn pen wyth diwrnod ar hugain mewn ysgrifen wedi'i chyfeirio at y Llywydd, cynhelir etholiad arall mewn modd cyffelyb; ar yr amod, i bwrpas yr etholiad hwnnw, y cyfrifir yr esgobaeth yn wag o'r dydd y gwrthodwyd y swydd neu'r wythfed dydd ar hugain wedi ethol yr Esgob Etholedig, pa un bynnag a ddaw gyntaf.

26.1 Os bydd yr Esgob Etholedig yn derbyn y penodiad, bydd y Llywydd yn anfon ei enw i bob aelod o Fainc yr Esgobion, ac os byddant hwy neu fwyafrif ohonynt wedi ymgynnull mewn Synod wedi'u bodloni ei fod yn gymwys, bydd y Llywydd yn cymryd y camre angenrheidiol i ddwyn yr etholiad i rym.

26.2 Oni bydd Mainc yr Esgobion neu'r mwyafrif ohonynt wedi'u bodloni, cynhelir etholiad arall mewn modd cyffelyb, ar yr amod i ddiben y cyfryw etholiad yr ystyrir i'r esgobaeth ddod yn wag ar ddyddiad y Synod lle nad oedd Mainc yr Esgobion neu'r mwyafrif ohonynt wedi'u bodloni, a chymhwysir Rheoliad 16.2.

22. If a person receives two-thirds of the votes of those present and voting he shall be declared by the President to be the Bishop-Elect.

23. If at the close of the meeting, which shall not extend beyond three consecutive days, no person shall have received two-thirds of the votes of those present and voting, the right to fill the vacancy shall pass to the Bench of Bishops, unless and until the Governing Body shall have otherwise determined.

24. If the College does not elect any person as Bishop-Elect within three months of the vacancy of the see, the vacancy shall be filled by the Bench of Bishops, unless and until the Governing Body shall have otherwise determined.

25. If the Bishop-Elect refuses, or within twenty-eight days does not accept the appointment by writing addressed to the President, another election shall be held in similar manner, provided that for the purpose of such election the vacancy of the see shall be deemed to have taken place on the date of such refusal or on the twenty-eighth day after the election of such Bishop-Elect, whichever shall first happen.

26.1 If the Bishop-Elect accepts the appointment, the President shall send his name to each member of the Bench of Bishops, and if they or a majority of them assembled in Synod are satisfied of his fitness, the President shall take the necessary steps to give effect to the election.

26.2 If the Bench of Bishops or a majority of them are not so satisfied, another election shall be held in similar manner, provided that for the purpose of such election the vacancy of the see shall be deemed to have taken place on the date of the Synod at which the Bench of Bishops or a majority of them were not so satisfied, and Regulation 16.2 shall apply.

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru.
Argraffwyd ar ddefnyddiau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department.
Printed on recycled materials